Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

RHAN 3

Talu grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru

Cofnodion, edrych ar gofnod a hysbysiad am newidiadau

10. Un o amodau talu unrhyw grant a gwneud benthyciadau yw bod rhaid i'r person y gwneir y taliad iddo—

(a) gwneud cofnod o'r holl daliadau grant neu fenthyciad a wneir a'r holl wariant y gwneir taliadau o'r fath yn ei gylch,

(b) cadw unrhyw gofnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) am chwe blynedd o leiaf ar ôl y dyddiad y gwnaed y taliad olaf,

(c) yn dilyn hysbysiad rhesymol gan Weinidogion Cymru, sicrhau bod unrhyw gofnod y cyfeirir ato ym mharagraff (a) ar gael i edrych arno, a

(d) hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i dalu'r grant neu'r benthyciad.